COFNODION CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 21 Tachwedd 2000
**Amser:** 9.00am
**Lleoliad:** Ystafell y Llywydd (A3.10)

**Yn bresennol:**
John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol

John Lloyd, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol OPO
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, YP/y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffydd, YP/Dirprwy Lywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor (eitem 6 ar yr agenda)
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 8 ar yr agenda)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Dim

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC305-00 (terfynol)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Gan nad oedd sylwadau pellach caent eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**BC315-00 (drafft)**

2.2 Cyflwynwyd drafft o'r cofnodion i'r Pwyllgor. Gan nad oedd unrhyw sylwadau caent eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf ar eu ffurf derfynol. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

2.3 Nododd Jocelyn Davies o dan baragraff 7.4 ei bod yn credu iddi ofyn i'r Trefnydd a fydd dadl ar y Cytundeb Partneriaeth o fewn y tair wythnos nesaf. Dywedodd y Trefnydd nad oedd ef yn cofio cael y sgwrs honno.

## 3. Materion yn codi (BC315-00)

3.1 **Paragraff 3.3** – Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC322-00 a roddai eiriad arfaethedig cynigion i nodi adroddiadau'r Pwyllgor Deddfau a oedd yn tynnu sylw at orchmynion arbennig. Cytunwyd ar y geiriad yn amodol ar ddileu'r cymal "has identified matters of concern in the draft order" a'i gyfnewid am "draws the special attention of the Assembly under Standing Order 11.5 to the draft order". Byddai hyn yn sicrhau bod y geiriad arfaethedig yn agosach at y Rheolau Sefydlog. **Gweithredu: Marion Stapleton i fabwysiadu geiriad diwygiedig**

3.2 **Paragraff 3.6** – Byddai Marie Knox yn rhoi adborth ar farn y Pwyllgor Deddfau yn y cyfarfod nesaf.

3.3 **Paragraff 6.1** – Roedd Jocelyn Davies yn parhau i fod yn bryderus am drefniadau gweinyddol cyfarfodydd y Partneriaeth Sector Gwirfoddol. Gan mai staff cymorth i'r Weithrediaeth oedd yn gyfrifol am weinyddiaeth y cyfarfodydd hyn, byddai Jocelyn Davies yn dilyn y mater gyda Marion Stapleton y tu allan i gyfarfod y Pwyllgor Busnes. **Gweithredu: Marion Stapleton**

## 4. Materion wedi'u cyfeirio o'r cyfarfod llawn

4.1 Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod ef a nifer o'r Aelodau yn bryderus ynghylch yr amser oedd ar gael ar gyfer y ddadl ar ddatblygu cynaliadwy ar 16 Tachwedd. Er iddo allu caniatáu cyfraniadau gan bob Aelod a fynegodd ddiddordeb mewn siarad yn ystod y ddadl, cyfyngwyd amser siarad y pedwar olaf i funud yr un. Dywedodd y Trefnydd ei bod yn anodd cael y cydbwysedd cywir oherwydd byddai Datganiadau Cabinet fel ymateb i geisiadau am gwestiynau brys yn ogystal â nifer o bwyntiau o drefn yn sicr o dynnu oddi wrth yr amser dadlau. Cytunodd y Dirprwy Lywydd ond roedd am i'r Trefnwyr nodi'r broblem.

4.2 Yn sgîl pryderon y Trefnwyr am y weithdrefn ar gyfer y cwestiynau a datganiadau brys, cytunwyd i ailddosbarthu'r protocol drafft ar ddatganiadau i'r Pwyllgor ar gyfer y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

4.3 Ar ôl ymgynghori â'r Llywydd, cadarnhaodd y Dirprwy Lywydd mai hawl i bum munud o amser siarad yn unig sydd gan Aelodau sy'n ceisio gwelliannau i gynigion.

4.4 Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod yn bryderus bod gwelliant y Llywodraeth i gynnig gan Blaid Cymru, ar ôl cael cyngor cyfreithiol, a'i ddethol a'i drafod ar 16 Tachwedd, yn ddiffygiol. Er y gallai'r Swyddfa Gyflwyno helpu, teimlai mai cyfrifoldeb yr Aelodau sy'n cyflwyno cynigion neu welliannau ydyw yn y pen draw a byddai'r Llywydd yn llymach wrth ddethol gwelliannau o'r fath yn y dyfodol. Nodwyd y bu'r Swyddfa Gyflwyno'n ddefnyddiol trwy ddarparu gwybodaeth i Aelodau am gyflwyno materion. Teimlai'r Trefnydd mai cyfrifoldeb y Swyddfa Gyflwyno ac nid yr Aelodau oedd sicrhau na derbynnid gwelliannau diffygiol. Dywedodd Jocelyn Davies y byddai'n annheg dyfarnu bod cynnig neu welliant allan o drefn unwaith ei fod

wedi'i dderbyn gan y Swyddfa Gyflwyno, yn enwedig os deallwyd yr ystyr. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai'r Swyddfa Gyflwyno'n parhau i roi cymorth i Aelodau, ond ni allai'r Dirprwy Lywydd ddethol cynigion neu welliannau diffygiol ar gyfer dadleuon yn y dyfodol.

## 5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau

5.1 Roedd y Pwyllgor wedi bod yn ystyried BC272-00(diwygiedig) ar ddyddiadau toriadau yn 2001. Dywedodd Jocelyn Davies bod Ieuan Wyn Jones a Rhodri Morgan, mewn cyfarfod diweddar o arweinyddion y pleidiau, o'r farn nad oedd angen toriad ar gyfer y tymor cynadledda yn 2001. Nododd Kirsty Williams nad oedd arweinydd ei phlaid yn anghytuno â'r farn honno ac mai safbwynt y Democratiaid Rhyddfrydol o hyd oedd y dylent fynychu cynhadledd eu plaid genedlaethol. Ni theimlai ei bod yn briodol cynnal busnes ysgafn yn y Cyfarfod Llawn yn ystod y tymor cynadledda a phan fyddo unrhyw blaid yn absennol. Teimlai y dylai toriad yr haf gychwyn yn hwyrach a gorffen ar ôl tymor cynadledda'r pleidiau. Byddai hyn yn golygu bod y Cynulliad mewn sesiwn am wythnos neu ddwy yn hwyrach nag a amlinellwyd ym mhapur BC272-00(diwygiedig) ac ni cheid toriad hanner tymor ym mis Hydref.

5.2 Dywedodd William Graham y teimlai ei blaid y dylid cael toriad ar gyfer cynadleddau'r pleidiau ac na ddylai'r Cynulliad gael toriad yn ystod yr hanner tymor ym mis Hydref. Dywedodd Trefnydd y Cynulliad bod ei grŵp wedi dod i'r casgliad nad oedd trefniadau'r llynedd yn gyflwyniadol fuddiol. Cynigiodd yntau hefyd ymestyn toriad yr haf i gynnwys tymor cynadleddau'r pleidiau ac na ddylai'r Cynulliad gael toriad yn ystod yr hanner tymor ym mis Hydref.

5.3 Dywedodd Jocelyn Davies ei bod yn bryderus bod y cynnig hwn yn torri'r cysylltiad rhwng tymhorau'r Cynulliad a gwyliau ysgol ac nad oedd yn gydnaws ag ymrwymiad y Cynulliad i sicrhau trefniadau gwaith cyfeillgar sy'n ffafriol i deuluoedd. Teimlai bod ymgais i'w chael i gytuno i drefniant lle na fyddai Aelodau'r Cynulliad na'u staff yn gallu treulio rhan o wyliau haf yr ysgol a'r hanner tymor ym mis Hydref gyda'u plant er mwyn rhoi'r cyfle i bleidiau eraill fynychu cynadleddau eu plaid tra bod rhai heb fynychu'r un eleni. Teimlai Kirsty Williams nad oedd pythefnos yn gorgyffwrdd â gwyliau ysgol yn anghydnaws ag egwyddorion ffafriol i deuluoedd y Cynulliad.

5.4 Cytunwyd y byddai Marie Knox a Marion Stapleton yn paratoi papur diwygiedig yn nodi'r dewisiadau amserlen ar sail y dybiaeth y ceid toriad ar gyfer y tymor cynadledda. **Gweithredu: Marie Knox a Marion Stapleton**

## 6. Pwyllgorau

6.1 Nododd y Pwyllgor bapur BC317-00 a oedd yn cynnwys manylion yr enwebiadau i'r Paneli Penodiadau Cyhoeddus.

6.2 Gofynnodd Marie Knox a oedd y Rheolwyr Busnes wedi derbyn unrhyw sylwadau ar amserlen ddrafft y pwyllgor yr oedd wedi'i ddosbarthu trwy

gyfrwng ebost. Cytunwyd i gyflwyno'r sylwadau cyn gynted ag y bo modd fel y gellid eu gorffen a'u dosbarthu. **Gweithredu: Rheolwyr Busnes i ystyried amserlen busnes y pwyllgorau**

## 7. Busnes yn yr Arfaeth

### Busnes yr wythnos hon

7.1 Dywedodd y Trefnydd y byddai'r Prif Weinidog yn rhoi datganiad Cabinet i'r Cyfarfod Llawn ar Raglen Flynyddol y Llywodraeth yn ystod y prynhawn. Darparwyd copi o'r datganiad i'r Rheolwyr Busnes dros 24 awr ymlaen llaw. Mynegodd Jocelyn Davies a William Graham eu pryder bod y cyfryngau wedi cael copïau o'u blaenau hwy, er iddo gael ei ddosbarthu iddynt ymlaen llaw. Cadarnhaodd y Trefnydd y bwriedir trafod y Rhaglen o fewn y pythefnos nesaf.

### Busnes arfaethedig ar gyfer yr wythnosau yn dechrau ar 27 Tachwedd, 4 a 11 Rhagfyr 2000

7.2 Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd ynglyn â'i ddatganiad arfaethedig ar drefniant busnes y Cynulliad yn yr wythnosau yn cychwyn ar 27 Tachwedd, 4 a 11 Rhagfyr (BC318-00) oedd y dylai symud yn ei flaen fel yr amlinellwyd yn y datganiad busnes drafft. Fodd bynnag, nododd Jocelyn Davies a William Graham nad oedd y datganiad drafft yn rhoi digon o fanylion am y busnes yn yr arfaeth i ganiatáu ystyriaeth briodol.

7.3 Fel ymateb i ymholiad gan Jocelyn Davies cadarnhawyd y bydd cwestiwn brys [a Datganiad Cabinet wedyn] ar y Cynllun Effeithlonrwydd Egni yn y Cartref y prynhawn hwnnw.

7.4 Ystyriodd y pwyllgor bapur BC323-00 ar drefniadau ymdrin ar gyfer y ddadl yn yr arfaeth ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU, a chytunodd iddo. Dywedodd y Dirprwy Lywydd bod y Llywydd yn fodlon â'r argymhellion.

## 8. Is-Ddeddfwriaeth

### Gorchymyn Cadw Mincod (Cymru) 2000

8.1 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC319-00 a nodai gyngor Rhodri Morgan, Prif Weinidog y Cynulliad ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn hwn. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r argymhelliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r pwyllgor pwnc. Byddai'n dod i benderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel y gellid ei gyhoeddi ym musnes y prynhawn. **Penderfyniad y Dirprwy Lywydd – Gweithdrefn Gyflymach**

### Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd Cyffredinol (Siopau Cigydd) (Diwygio) (Cymru) 2000

8.2  Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC321-00 a roddai gyngor Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn hwn. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r argymhelliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r pwyllgor pwnc.  Byddai'n dod i benderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel y gellid ei gyhoeddi ym musnes y prynhawn.  **Penderfyniad y Dirprwy Lywydd – Gweithdrefn Gyflymach**

**9.  Diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog**

9.1  Ystyriodd y pwyllgor bapur BC313-00 a gynigiai ddiwygiad i Reol Sefydlog 6.3 i alluogi Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a'r Cymunedau ateb cwestiynau ar wahân ar gyllid, a'i chyfrifoldebau eraill; a chytunodd iddo.  Nodwyd y byddai ar y Rheolwyr Busnes angen cytuno ar Adroddiad y Pwyllgor Busnes ar yr adolygiad yn ystod y dydd fel y gellid ei gyflwyno i'r  Swyddfa Gyflwyno. Byddai hyn yn golygu y gellid cyflwyno'r cynnig a'i gymeradwyo mewn cyfarfod llawn ar 28 Tachwedd.  **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr i baratoi adroddiad, ac wedi cytuno arno, ei gyflwyno i'r Swyddfa Gyflwyno**

9.2  Ystyriodd y pwyllgor bapur BC320-00 a gynigiai ddiwygiad i'r Rheol Sefydlog i ganiatáu pleidlais trwy ddangos dwylo pe peidiai'r system bleidleisio electronig â gweithio.  **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr i baratoi adroddiad i'r Pwyllgor Busnes**

**10. Dyfarniadau'r Llywydd**

10.1  Dim

**11. Unrhyw fater arall**

11.1  Dim

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**